

Datganiadau Diwygiedig a Sylwadau

Llwybr - VALE-BA-P0030 - Harbour Road - Park Crescent i Ysgol Gynradd Romilly - DILĒWYD Y LLWYBR HWN O'R AT ERM AR Y CAM HWN AC FE'I HAILGYFLWYNIR FEL RHAN O'R INM

Sgôr – 58

Sylwadau LIC – Diffyg cyrbau is, palmentydd botymog a lled yn gwneud y llwybr hwn yn anaddas i'r holl ddefnyddwyr gan gynnwys pobl â nam symudedd.

Adolygiad o'r llwybrau – archwiliwyd y llwybr eto a chafodd yr un sgôr. Nodwyd llai o rwystrau dros dro ond mae o hyd rai byrddau hysbysebu A.

Sylwadau diwygiedig – Mae'r llwybr hwn yn mynd ar hyd palmant y lôn brysur yn Park Crescent ac mae'n un o'r prif llwybrau a ddefnyddir i gael mynediad i ysgol fawr Ysgol Gynradd Romilly. Prin fod lle ar y stryd ac mae'n amhosibl gwella'r llwybr (e.e. cynyddu lled y palmant) heb ailddatblygu'r stryd gyfan fydd yn gostus tu hwnt. Mae gan y palmant hefyd adeileddau parhaol (lampau stryd) sy'n lleihau ei lled i'r graddau y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr gyfaddawdu â'i gilydd.

Nodwyd llai o rwystrau dros dro yn yr ail archwiliad. Nodwyd rhai diffygion ag arwyneb y palmant ond nid oeddent yn debyg o arwain at faglu nac achosi trafferthion i bramiau. Byddai cyrbau is gwell (ar naill ben y ffordd) a phalmant botymog yn dda ond ni fyddent yn atal y rhan fwyaf o bobl rhag defnyddio'r llwybr. Un gwelliant sy'n cael ei ystyried yw edrych ar oedi wrth y groesfan a reoleiddir gan oleuadau. Dylai'r amser aros leihau'n sylweddol.

.

Datganiad diwygiedig – Llwybr prysur i gael mynediad i Ysgol Romilly. Mae'r palmant yn gul ac yn gyfyngedig mewn rhai llefydd sy'n golygu y bydd rhaid i ddefnyddwyr gyfaddawdu mewn rhai manau. Mae cyrbau deupen y ffordd o safon isel, a does dim palmant botymog.

Llwybr - VALE-BA-P0080 Ysgol Gynradd Sirol Sili - Porlock Drive - DIWYGIWYD Y DATGANIAD A'R SYLWADAU

Sgôr – 69 (diwygiwyd o 66)

Sylwadau LIC

Ni fyddwn yn argymhell hwn fel llwybr teithio actif, o ystyried ei fod yn llwybr ysgol – angen arwyneb newydd a'i lledaenu cyn gwneud hynny.

Am fod hwn yn llwybr ysgol, dylid cyfiawnhau digonolrwydd lled cyfyngedig a'r arwyneb mewn datganiad gyda llifoedd tebygol a mesurau i liniaru parcio ar droedffyrdd fel y'i nodir.

Adolygiad o'r llwybr Ail-archwiliwyd y ffordd ac mae'r rhan fwyaf o'r sgorau'n unfath heblaw am led y llwybr ar hyd Burnham Avenue lle gwnaed camgymeriad. Diwygiwyd hyn o 1.5m i 1.7. (Sgôr o "0" i "1") Nid oes ond un ardal fer lle mae'r lled yn is na 1.7 oherwydd blwch BT.

Mae'r arwyneb hefyd wedi'i edrych arno eto ac mae'r mater cyfan yn ymwneud â Burnham Avenue. Mae'r diffygion a nodwyd yn annhebygol o achosi baglu neu anawsterau i bramiau ond mae wedi cael sgôr isel oherwydd nifer y manau croesi (dreifiau preswyl).

Ar ôl cynnal sawl ymweliad nid arsylwyd parcio ar y troedffyrdd

Sylwadau diwygiedig. Mae'r llwybr yn gyswllt pwysig rhwng aneddiadau a nifer o amwynderau gan gynnwys yr ysgol gynradd. Mae'r llwybr troed yn anwastad mewn llefydd ac mae o leiaf 1.7m o led. Mae'r diffygion a nodwyd yn annhebygol o achosi baglu neu anawsterau i bramiau ond mae wedi cael sgôr isel oherwydd nifer y manau croesi (dreifiau preswyl). Mae'r llwybr troed yn ddirwystr ac eithrio bod un ardal fechan, lle mae blwch BT.

Ar ôl cynnal sawl ymweliad nid arsylwyd parcio ar y troedffyrdd.

Mae'r llwybr troed yn gwyro yn ardal y parc ac mae llawer o ddefnyddwyr yn croesi'r ardal weiriog. Prin yw'r gwyro wrth y groesfan ffordd ac mae ei angen oherwydd cynllun y ffordd. Gwelwyd defnyddwyr yn defnyddio'r groesfan ar bob achlysur. Cymharol yw maint a chyflymder y traffig ond nid yw ond yn berthnasol yn ardal y groesfan ar y B4267, fel arall mae'n brin

Datganiad diwygiedig - Mae'r troedffyrdd yn Nhroedffordd Burnham Avenue yn anwastad mewn llefydd ond yn annhebygol o achosi baglu neu anawsterau i bramiau ac mae o leiaf 1.7m o led. Prin fod amrywio o'r llinellau a ddymunir. Mae cyflymder a maint traffig ar y B2467 yn gymedrol ac mae croesfan sebra. Fel arall mae'r llwybr yn ddiraffig neu ar stryd breswyl ddistaw.

**Llwybr - VALE-BA-P0180, Penceoedre Rd - Ysgol Maes Dyfan, Meddygfa a Chanolfan
Gymunedol Gibbonsdown - UWCHRADDIWDYD Y LLWYBR I UN SY'N PASIO A DIWYGIWDYD Y
SYLWADAU**

Sgôr - 70 (diwygiwyd o 50)

Sylwadau LIC -

Mae gan y llwybr hwn sgôr o 50%. Mae angen gwelliant cyn ei argymhell fel llwybr teithio actif.

Mae sawl gwelliant a nodwyd yn y datganiad yn sylweddol a dylid mynd i'r afael â nhw cyn ei gynnwys fel llwybr TA.

Adolygiad o'r llwybr – Ail-archwiliwyd y llwybr hwn. Lleihawyd nifer o sgorau am fod tystiolaeth o dipio anghyfreithlon a chyfeiriad penodol at soffa. Gallai fod wedi'i roi allan ar y stryd i'w gasglu gan y cyngor. Ar ôl sawl ymweliad â'r safle ni chanfuwyd tipio anghyfreithlon. Mae lled y palmentydd hefyd wedi'i ailasesu a chanfuwyd ei fod rhwng 1.5 a 1.7m. Mae modd priodoli cyfeiriadau at arwynebau gwael ar balmentydd i'r palmant ar ben dwyreiniol y stryd sy'n cydweddu'r tai teras.

Sylwadau diwygiedig – Mae'r ardal/celfi stryd yn dadfeilio a gellid gwella arwyneb y droedffordd. Ym mhen dwyreiniol y ffordd mae'r droedffordd yn anwastad am fod y slabiau a ddefnyddiwyd ar hyd y tai teras yn cydweddu'r ardal ac nid oes modd eu newid. Mae lled y droedffordd yn amrywio rhwng 1.5 a 1.7m a gwelwyd rhywfaint o barcio ar droedffyrdd. Ond nid oedd yn rhwystro mynediad. Mae cyrbau is a phalmant botymog yn broblem ond mae tystiolaeth o welliannau diweddar yn ardal y parc a'r datblygiadau tai newydd. Mae'r stryd yn hir ac yn syth a gallai cyflymder y traffig gynyddu wrth iddynt yrru i lawr yr allt. Ond ni welwyd hyn ar ymweliadau safle. Mae gan un ardal o'r stryd barth 20mya.

.

Datganiad diwygiedig – Dd/B

Llwybr - VALE-DP-P0010 Ysgol Fabanod Sirol Dinas Powys - Gorsaf Eastbrook - DIWYGIWYD Y SYLWADAU A'R DATGANIAD

Sgôr – 58

Sylwadau LIC –

Yn bryderus ynghylch diogelwch y llwybr (llai na 1.5m o led) ger lôn gerbydau brysur.

Sylwadau archwilio cyfarwyddol ond mae angen mwy o gyfiawnhad o ran p'un a ellir goresgyn rhwystrau'n arbennig o ran lled is-safonol sy'n llai na 1.5m wrth ymyl lôn gerbydau gyflym, brysur.

Adolygiad o'r llwybr – Ail-archwiliwyd y llwybr ac ni wnaed newidiadau iddo. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad penodol at y llwybr 1.5m o led yn sôn am safle penodol lle mae

Brookside yn cwrdd â Cardiff Road. Byddai hyn yn awgrymu na fyddai ond angen i ddefnyddwyr “weithiau cyfaddawdu” sy’n awgrymu sgôr o 1 yn hytrach na “cyfaddawdu’n aml” a fyddai’n cael sgôr “0”.

Er mwyn lledaenu’r palmant rhaid gwneud gwaith sylweddol a drudfawr i’r geuffos sy’n rhedeg is Brookside. Nid oes arian ar gael ar hyn o bryd i gyflawni’r gwaith hwn.

Sylwadau diwygiedig -

Rhoddir tai yn ôl ac ar ochr arall y ffordd cyfeirio fel bod llai o wyliadwriaeth naturiol er bod traffig yn cynnig rhywfaint o wyliadwriaeth. Mae’r llwybr yn mynd ar hyd Cardiff Road prysur sy’n swllyd ac yn creu llygredd ond mae cyflymder y traffig yn gymedrol oherwydd bod cymaint ohono. Mae’r droedffordd yn culhau i lai na 1.5m mewn un rhan oherwydd cyfyngiadau peirianyddol yn amgylchynu dyluniad cyffordd Cardiff Road/Brookside a’r geuffos ddraenio sydd oddi tani. Bydd lleihau’r lled yn golygu bod yn rhaid i ddefnyddwyr gyfaddawdu yma.

.

Datganiad diwygiedig – Llwybr presennol rhwng Gorsaf Eastbrook, Ysgol Fabanod Sirol Dinas Powys a chroesfan i gerddwyr Cardiff Road. Mae’r llwybr hwn ochr yn ochr â Cardiff Road prysur ac mae un rhan o’r llwybr yn gulach lle bydd angen i ddefnyddwyr gyfaddawdu â’i gilydd.

Llwybr - VALE-DP-P00120 Ysgol Sirol Murch - Millbrook Road - UWCHRADDIWYD YR ERM AC FE’I PASIWYD A DIWYGIWYD SYLWADAU

Sgôr – 72 (diwygiwyd o 39 ac yn cynnwys awgrym i alinio’r llwybr)

Sylwadau LIC -

Nid yw’r llwybr o safon ddigonol i gael ei hyrwyddo fel llwybr teithio actif.

Sawl mater i fynd i’r afael â nhw cyn cynnwys y llwybr gan gynnwys diffyg cyrbau is sy’n cyfyngu defnydd i bobl â nam symudedd.

Adolygiad llwybr – Ail-archwiliwyd y llwybr a diwygiwyd y sgôr o 39 i 72. Mae aliniad y ffordd wedi newid i ochr ogleddol Milbrook Road, o ochr y de gan osgoi troi i’r ochr a dreifiau. Rhoddwyd pwyslais mawr ar groesfan Cardiff Road yn yr archwiliad gwreiddiol. Fodd bynnag nid yw’r groesfan hon ond yn 20m o’r llwybr 870m. Addaswyd y sgorau canlynol.

- Atyniad – Sŵn a llygredd traffig – newid o 1 i 2. Llwybr braff heb sŵn na llygredd traffig ond am ar ddarn bach wrth y groesfan yn Cardiff Road.

- Atyniad – Goleuadau ac ati. – Newid o 1 i 2

- Cyfforddusrwydd – cyflwr, newid o 0 i 1. Troedffyrdd yn cydymffurfio ag “1” yn y cyflyrau archwilio.
- Cyfforddusrwydd – cyflwr, newid o 0 i 1. Lled yn cydymffurfio ag “1” yn y cyflyrau archwilio.
- Cyfforddusrwydd – newid parcio troedffyrdd o 1 i 2. Dim tystiolaeth o barcio ar droedffyrdd yn ystod sawl ymweliad
- Cyfforddusrwydd – Newid graddiant o 1 i 2. Graddiant bach iawn ar groesfan y bont reilffordd.
- Uniongyrchedd – bylchau mewn traffig. Newid o 1 i 2. Dim problemau â bylchau mewn traffig a rhwyddineb croesi ffyrdd ar ôl sawl ymweliad.
- Diogelwch – Maint traffig. Newid o 0 i 1. Y sefyllfa bresennol yw nad oes ond un darn o'r llwybr sy'n brysur o ran traffig, sef rhan fer croesfan Cardiff Road. Diogelir cerddwyr gan faint y traffig drwy gynllun y groesfan a reoleiddir gan olau, a byddai gweddill y llwybr yn sgorio “2” am fod maint y traffig yn fach ac y gall cerddwyr gadw draw ohono. Felly dylai'r sgôr archwilio cyffredinol fod yn “2”. Yn yr archwiliad gwreiddiol dim ond un adran sy'n sôn am draffig prysur, sgôr “0”, felly dyna'r rheswm posibl am bennu'r sgôr “0”.
- Diogelwch – Cyflymder traffig. Newidiwyd o 0 i 1. Megis uchod.
- Diogelwch – Gwelededd – Newidiwyd o 1 i 2. Ni chanfuwyd problemau.

Sylwadau diwygiedig – Bydd adran pont Murch Road yn teimlo'n arunig i rai defnyddwyr ond mae gan yr ardal deimlad agored a chaiff ei chynnal yn dda. Mae'r groesfan ar Cardiff Road yn swllyd a llawn llygredd ond nid yw hwn ond yn rhan 20m o'r llwybr 870m. Mae llawer o draffig ar Cardiff Road ond mae dyluniad y groesfan yn diogelu cerddwyr. Troedffordd yn ddarniog mewn rhai llefydd. . Dim ond Milbrook Close sydd heb gyrbau is.

.

Datganiad diwygiedig – Dd/B

Llwybr - VALE-DP-P0060, Canol Tref Dinas Powys - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Andrews - UWCHRADDIWDYD Y LLWYBR ERM I BASIO A DIWEDDARWYD SYLWADAU

Sgôr – 71 (diwygiwyd o 59)

Sylwadau LIC –

Llwybr anaddas i ddefnyddwyr â nam symudedd.

Byddai sylwadau'n awgrymu, er ei nodi fel hanfodol, fod y lled ymhlith materion eraill yn gwneud y llwybr yn anaddas i bobl â nam symudedd.

Adolygiad llwybr – Ail-archwiliwyd y llwybr a newidiwyd y sgôr o 59 i 71.

Y newidiadau a wnaed oedd:

- Sŵn a llygredd traffig o 1 i 2,
- Atyniad 1 i 2,
- Adolygu parcio ar droedffyrdd ac ni chanfuwyd problemau ar ôl sawl ymweliad hyd yn oed yn ystod amseroedd ysgol prysur
- Graddiant llwybr amcangyfrifedig yn anghywir ac yn is na 1 mewn 12 felly newidiwyd y sgôr o 0 i 1
- Sgôr cydlyniant wedi disgyn o 2 i 1 oherwydd cyrbau is.

Sylwadau diwygiedig. Mae angen rhywfaint o waith cynnal a chadw ar y celfi stryd ac mae'r troedffyrdd wedi'u difrodi ac yn ddarniog. Nid yw'r droedffordd ond yn 0.6m o led wrth y parc, ond gallai defnyddwyr eraill ei osgoi drwy gerdded ar y gwair. (Mae palmant mwy llydan amgen ar gael ar ochr arall y ffordd). Gwelwyd grwpiau mawr o ysgolion yn ei ddefnyddio. Mae'r graddiant yn fwy serth ar y pen dwyreiniol ond nid yw'n fwy nag 1 mewn 12. Mae angen cyrbau is a phalmant botymog mewn rhai ardaloedd.

.

Datganiad diwygiedig – Dd/B

Llwybr - VALE-LM-P0020, Heol Fawr i Orsaf Drenau Llanilltud Fawr drwy Ysgol Illtud Sant - BYRHAWYD Y LLWYBR A DIWYGIWYD Y SGÔR A'R SYLWADAU

Sgôr – 84 (diwygiwyd o 63 ar ôl byrhau'r llwybr)

Sylwadau LIC –

Dylid mynd i'r afael â nifer o faterion cyn dechrau ar y llwybr hwn.

Adolygiad o'r llwybr – Byrhawyd y llwybr i waredu rhan ogleddol Heol Fawr sydd heb balmant cyfredol. Bydd yn amhosibl adeiladu llwybr i safon dda yn yr ardal am fod lled y lle sydd ar gael a'r lleoliad mewn ardal gadwraeth.

Gyda'r llwybr yn cael ei fyrhau diwygiwyd y sgorau o 63 i 84. Gwnaed y newidiadau canlynol.

- Newid cynnal a chadw o 1 i 2 oherwydd newidiadau a wnaed rhwng archwiliadau (tocio gwrychoedd preswylwyr)
- Newid sŵn a llygredd traffig o 1 i 2 oherwydd newid o ran agosrwydd y llwybr i draffig.
- Newid atyniad o 0 i 1, y brif broblem o hyd yw mynediad gwael ym Mharc Lorna Hughes.
- Newid amod o 1 i 2.
- Rhwystrau dros dro wedi'u newid o 0 i 2. (Dim ceir wedi'u parcio ar y llwybr)
- Newid maint traffig o 0 i 2.
- Newid cyflymder traffig o 0 i 2.
- Newid cydlyniant o 0 i 2 - cyrbau is a phalmant botymog ar y llwybr cyfan

Sylwadau diwygiedig. Mynediad gwael iawn i Barc Lorna Hughes o Heol Fawr achos graddiant y parth a rhwystr cyfyngedig iawn. Dylai adolygiad o'r dilyniant goleuadau traffig gael ei wneud i sicrhau y gall cerddwyr groesi mor gyflym â phosibl. Arsylwyd bod llawer o bobl yn croesi ar y golau coch pan fo bylchau yn y traffig. Gwnaeth cerddwyr hefyd groesi'r gylchfan fach i fynd i'r orsaf.

.

Datganiad diwygiedig – Dd/B